Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried:** Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd)

Medi 2022

Ar 7 Mehefin 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 29 Medi 2022.

Ar 20 Medi, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 1 Rhagfyr 2022.